






Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Y Gell Cyngor Technegol

Crynodeb o'r Cyngor

8 Mehefin 2021



Y Gell Cyngor Technegol: Crynodeb o'r Cyngor

8 Mehefin 2021

Crynodeb o'r prif bwyntiau

- **Ar 2 Mehefin, mae nifer yr achosion yng Nghymru wedi cynyddu ychydig i 9.3 o achosion am bob 100k o'r boblogaeth**, o'i gymharu ag 8.4 yr wythnos flaenorol. Mae amrywiad sylweddol yn parhau yn rhanbarthol o ran y newid wythnosol, er bod nifer yr achosion yn isel.
- Mae'r amcangyfrif diweddaraf gan y **Grŵp Cyngori Gwyddonol ar Argyfyngau (SAGE)** o'r rhif atgynhyrchu (R_t) ar gyfer Cymru rhwng **0.8 ac 1.2** (cyfwng hyder o 90%) ac amcangyfrifir fod y gyfradd twf **rhwng lleihau -3% a chynyddu +1%** bob dydd. (Sylwer fod amcangyfrifon R_t a chyfradd twf gan SAGE yn cynrychioli trosglwyddiad COVID-19 fel yr oedd 2 i 3 wythnos yn ôl yn hytrach na heddiw.)
- Yr amcangyfrif diweddaraf o R_t gan **Iechyd Cyhoeddus Cymru** ar lefel Cymru gyfan yw rhwng **0.8 ac 1.0** (cyfwng hyder o 95%). Mae'r gyfradd twf ar gyfer Cymru gyfan **yn weddol sefydlog**, gan ddyblu bob 542 o ddiwrnodau, er bod amrywiad sylweddol ar lefel ranbarthol.
- Ar lefel ranbarthol mae cryn amrywioldeb, gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru yn amcangyfrif y R_t isaf ym mwrdd Iechyd **Aneurin Bevan**, sef 0.51 ac **amser haneru o ychydig o dan 9 diwrnod**, a'r R_t uchaf ym mwrdd Iechyd **Betsi Cadwaladr**, sef 1.8, gydag **amser dyblu o 11 diwrnod**. Mae llai o oedi ar gyfer yr amcangyfrifon hyn nag amcangyfrifon SAGE, sy'n cynrychioli trosglwyddiadau o tua 1 wythnos yn ôl; fodd bynnag, mae'n defnyddio methodoleg wahanol, yn seiliedig ar episodau profi SARS-Cov-2 positif yn unig.
- Yn ôl Iechyd Cyhoeddus Cymru cofnodwyd **0 marwolaeth o COVID-19** yn ystod y cyfnod 7 diwrnod diweddaraf, yr ail dro i hyn ddigwydd yn ystod y pandemig, sy'n debygol o fod o ganlyniad i effaith y rhaglen frechu.
- Er y bydd y gwir niferoedd yn uwch gan fod data yn cael eu mewnbynny'n gyson, am 22:00 ar 6 Mehefin 2021, roedd **2,183,455 o ddosau cyntaf** (+55,392 ers yr adroddiad blaenorol) ac **1,249,268 o ail ddosau** (+168,106 ers yr adroddiad blaenorol) o frechlyn COVID-19 wedi cael eu rhoi yng Nghymru ac wedi'u cofnodi ar System Imiwneiddio Cymru ar gyfer COVID-19. Fel yr adroddwyd gan [Our World in Data](#) ac mewn manau eraill, mae Cymru ar hyn o bryd **yn arwain yn fyd eang** o ran cyfran y boblogaeth sydd wedi derbyn o leiaf un dos o frechlyn COVID-19.
- Ar gyfer yr wythnos o 23 i 29 Mai 2021, amcangyfrifwyd fod gan gyfartaledd o 0.10% o'r boblogaeth gymunedol COVID-19 (cyfwng credadwy o 95%: 0.03% i 0.19%). Mae hyn gyfystyr ag oddeutu 1 person ym mhob 1,050 (cyfwng credadwy o 95%: 1 o bob 2,910 i 1 o bob 520), neu 2,900 o bobl yn ystod y cyfnod hwn. **Ceir arwyddion cynnar o gynnydd yng nghanran y boblogaeth gymunedol sy'n profi'n bositif yn yr wythnos ddiweddaraf yng Nghymru.**

- Wrth symud ymlaen, bydd y cyngor hwn yn defnyddio'r gyfundrefn enwi y cytunwyd arni'n ddiweddar gan Sefydliad Iechyd y Byd ar gyfer amrywiolion sy'n peri pryder. Ar 4 Mehefin, mae **97 (+39 ers yr adroddiad diwethaf)** achos a gadarnhawyd ar sail genomeg ac achosion tebygol **o'r amrywiolyn Delta sy'n peri pryder** wedi'u canfod yng Nghymru. Er bod nifer yr achosion yn gyffredinol yn parhau'n isel, mae'r amrywiolyn hwn **yn parhau i fod yn destun pryder**. Mae amcangyfrifon cyfradd twf yn parhau i ddangos cyfradd twf sylweddol uwch ar gyfer Delta o'i gymharu ag Alpha ac mae data cynnar o Loegr a'r Alban yn awgrymu risg uwch o fynd i'r ysbyty gyda Delta o'i gymharu ag Alpha, ond mae angen dadansoddiadau i gadarnhau. Bydd mwy o ddata ar effaith amrywiolyn Delta ar gael dros yr wythnosau nesaf a bydd yn rhoi arwydd cliriach o lwybr yr epidemig yn dilyn y newidiadau i'r cyfyngiadau ar 17 Mai.
- Fel yr adroddwyd gan y [Swyddfa Ystadegau Gwladol](#), ar 2 Mai 2021 amcangyfrifwyd bod 1.7% o boblogaeth Cymru wedi adrodd eu bod yn profi effaith COVID hir. Ers mis Mawrth 2021, bu cynnydd amlwg yn nifer y bobl sydd wedi adrodd bod ganddynt COVID hir sydd wedi para o leiaf blwyddyn ar draws y DU. Mae effaith 'COVID Hir' a chyflyrau ar ôl COVID-19, sydd hefyd yn gallu effeithio ar grwpiau oedran iau nad ydynt efallai wedi cael eu brechu eto, yn parhau i fod yn bwysig i'w hystyried wrth gynllunio i lacio cyfyngiadau.
- Yn genedlaethol, mae capasiti GIG Cymru wedi aros yn gymharol sefydlog neu wedi gostwng, er y bu cynnydd bach yn nifer y bobl â COVID-19 yn yr ysbytai o'i gymharu â'r cyfnod blaenorol a gostyngiad yn nifer y derbyniadau i'r ysbyty.
- Mae'r data symudedd diweddaraf yn dangos cynnydd pellach yn yr wythnos ddiwethaf yn ystod y gwyliau hanner tymor a gŵyl y banc, gyda symudedd mewn rhai ardaloedd ar ei uchaf ers dechrau mis Mawrth 2020.

Papurau'r Grŵp Cyngor Technegol / SAGE a gyhoeddwyd yr wythnos hon

[SAGE: SPI-M-O: Rhagolygon tymor canolig, 19 Mawrth 2021](#)

[SAGE: Grŵp Cyngor Technegol Llywodraeth Cymru: 'COVID hir' – beth ry'n ni'n ei wybod a beth sydd angen i ni wybod? 1 Chwefror 2021](#)

Papurau eraill o Ddiddordeb

[Llywodraeth Cymru: Adroddiad sefyllfaol COVID-19 Cymru: 27 Mai 2021](#)